



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 60 (Cy.14)

2012 No. 60 (W.14)

**Y GEMAU OLYMPAIDD A'R
GEMAU PARALYMPAIDD,
CYMRU**

**OLYMPIC GAMES AND
PARALYMPIC GAMES,
WALES**

Rheoliadau Gemau Olympaidd a
Gemau Paralympaidd Llundain
(Hysbysebu a Masnachu) (Cymru)
2012

The London Olympic Games and
Paralympic Games (Advertising
and Trading) (Wales) Regulations
2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rheoli gweithgaredd hysbysebu a gweithgaredd masnachu yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd, ac o'i amgylch (y "parth digwyddiadau") yn ystod y cyfnodau pan fydd digwyddiadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 yn cael eu cynnal ("cyfnod digwyddiad").

These Regulations control advertising activity and trading activity in and around the Millennium Stadium, Cardiff (the "event zone") during periods when London 2012 Olympic and Paralympic Games events take place ("event period").

Mae'r Rheoliadau wedi eu gwneud o dan adrannau 19, 20(1), 22(8), 25, 26(1) a 28(6) o Ddeddf Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2006 ("y Ddeddf"). Mae adran 21(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn dramgwydd torri rheoliadau hysbysebu sydd wedi eu gwneud o dan adran 19 o'r Ddeddf honno, ac mae adran 27 o'r Ddeddf yn darparu ei bod yn dramgwydd torri rheoliadau masnachu sydd wedi eu gwneud o dan adran 25 o'r Ddeddf honno.

The Regulations are made under sections 19, 20(1), 22(8), 25, 26(1) and 28(6) of the London Olympic and Paralympic Games Act 2006 ("the Act"). Section 21(1) of the Act makes it an offence to contravene advertising regulations made under section 19 of that Act, and section 27 of the Act provides that it is an offence to contravene trading regulations made under section 25 of that Act.

Darpariaethau cyffredinol sydd yn Rhan 1 o'r Rheoliadau.

Part 1 of the Regulations comprises general provisions.

Mae un parth digwyddiadau yng Nghymru, sef parth Stadiwm y Mileniwm, a ddiffinnir yn rheoliad 3 drwy gyfeirio at y map sydd ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd. Mae rheoliad 3 hefyd yn diffinio cyfnod digwyddiad.

There is one event zone in Wales, the Millennium Stadium zone, which is defined in regulation 3 by reference to the map available for inspection at the offices of the Welsh Government and Cardiff Council. Regulation 3 also defines event period.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau manwl sy'n ymwneud â gweithgaredd hysbysebu yn y parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad.

Part 2 of the Regulations contains detailed provisions relating to advertising activity in the event zone during an event period.

Mae rheoliad 5(1) yn diffinio "gweithgaredd hysbysebu" i olygu arddangos hysbyseb neu ddosbarthu neu ddarparu deunydd hyrwyddo. Mae "hysbyseb", "arddangos hysbyseb" a "deunydd hyrwyddo" wedi eu diffinio yn yr un rheoliad. Mae darpariaeth benodol wedi ei gwneud yn rheoliad 5(3) ar gyfer hysbysebion sy'n cael eu harddangos ar ffonau symudol a dyfeisiau tebyg eraill.

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer gwaharddiad ar hysbysebu ac yn pennu pobl sydd i'w trin fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ymhel â gweithgaredd hysbysebu.

O dan adran 21(2) o'r Ddeddf, mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o dramgwydd o dan adran 21(1) o'r Ddeddf os yw'n profi bod y toriad wedi digwydd heb iddo wybod hynny neu er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i'w atal rhag digwydd neu (pan ddaeth yn ymwybodol ohono ar ôl iddo gychwyn) rhag parhau.

Yn ychwanegol at yr amddiffyniad hwn, mae rheoliadau 7 i 10 yn pennu eithriadau i'r gwaharddiad ar hysbysebu.

Mae'r eithriadau yn rheoliad 9 wedi eu gwneud ar lun darpariaethau yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 ("Rheoliadau 1992").

Yn ogystal â'r eithriadau a bennir yn rheoliadau 7 i 10, mae rheoliad 11 yn darparu na fydd y gwaharddiad ar hysbysebu'n gymwys i weithgaredd hysbysebu yr ymgymerir â hwy neu a reolir gan y "London Organising Committee of the Olympic Games and Paralympic Games Limited" ("LOCOG"), neu berson a awdurdodir gan LOCOG.

Mae hawl LOCOG i ymhel â gweithgaredd hysbysebu ac unrhyw awdurdodiad a roddir ganddo yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir yn rheoliad 11(4), gan gynnwys bod yr hysbysebwr yn dal trwydded y mae'n ofynnol ei chael, yn ychwanegol at awdurdodiad o dan reoliad 11, cyn y caiff y person hwnnw ymhel â gweithgaredd hysbysebu (p'un ai mewn man penodol neu'n gyffredinol).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau manwl sy'n ymwneud â gweithgaredd masnachu yn y parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad.

Mae rheoliad 12 yn diffinio "gweithgaredd masnachu" i olygu cyflawni un neu fwy o'r gweithgareddau a bennir yn y rheoliad hwnnw mewn man cyhoeddus agored.

Mae rheoliad 13 yn darparu ar gyfer gwaharddiad ar fasnachu ac yn pennu pobl sydd i'w trin fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ymhel â gweithgaredd masnachu.

Regulation 5(1) defines "advertising activity" as displaying an advertisement or distributing or providing promotional material. "Advertisement", "displaying an advertisement" and "promotional material" are defined in the same regulation. Specific provision is made in regulation 5(3) for advertisements displayed on mobile telephones and other similar devices.

Regulation 6 provides for an advertising prohibition and specifies people who are to be treated as satisfying the criteria for engaging in advertising activity.

Under section 21(2) of the Act, a person charged with an offence under section 21(1) of the Act has a defence if the person proves that the contravention occurred without the person's knowledge or despite the person taking all reasonable steps to prevent it from occurring or (where the person became aware of it after its commencement) from continuing.

In addition to this defence, regulations 7 to 10 specify exceptions to the advertising prohibition.

The exceptions in regulation 9 are modelled on provisions of the Town and Country Planning (Control of Advertisements) Regulations 1992 (the "1992 Regulations").

As well as the exceptions specified in regulations 7 to 10, regulation 11 provides that the advertising prohibition does not apply to advertising activity undertaken or controlled by the London Organising Committee of the Olympic Games and Paralympic Games Limited ("LOCOG"), or a person authorised by LOCOG.

LOCOG's right to engage in advertising activity and any authorisation granted by it are subject to the conditions specified in regulation 11(4), including that the advertiser holds a licence which, in addition to authorisation under regulation 11, is required before that person may engage in advertising activity (whether in a particular place or generally).

Part 3 of the Regulations contains detailed provisions relating to trading activity in the event zone during an event period.

Regulation 12 defines "trading activity" as carrying out one or more of the activities specified in that regulation in an open public place.

Regulation 13 provides for a trading prohibition and specifies people who are to be treated as satisfying the criteria for engaging in trading activity.

Mae rheoliad 14 yn pennu eithriadau i'r gwaharddiad ar hysbysebu.

Yn ychwanegol at yr eithriadau a bennir yn rheoliad 14, mae rheoliad 15 yn darparu na fydd y gwaharddiad ar fasnachu yn gymwys i weithgaredd masnachu yr ymgymerir ag ef yn unol ag awdurdodiad a roddwyd gan Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd ("ODA") neu berson y mae swyddogaeth rhoi awdurdodiadau wedi ei dirprwyo iddo gan ODA.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i berson sydd wedi gwneud cais am awdurdodiad ac sy'n anfodlon ar benderfyniad yr awdurdodwr, ofyn i ODA adolygu'r penderfyniad hwnnw.

Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer iawndal i berson y mae ei eiddo wedi ei ddifrodi yn ystod arfer neu arfer honedig o bŵer gorfodi o dan adran 22 neu 28 o Ddeddf 2006.

Regulation 14 specifies exceptions to the trading prohibition.

In addition to the exceptions specified in regulation 14, regulation 15 provides that the trading prohibition does not apply to trading activity undertaken in accordance with an authorisation granted by the Olympic Delivery Authority ("the ODA") or a person to whom the function of granting authorisations is delegated by the ODA.

Part 4 of the Regulations makes provision for a person who has applied for an authorisation, and is dissatisfied with the decision of the authoriser, to request the ODA to review that decision.

Part 5 provides for compensation for a person whose property is damaged in the course of the exercise or purported exercise of an enforcement power under section 22 or 28 of the 2006 Act.

2012 Rhif 60 (Cy.14)

**Y GEMAU OLYMPAIDD A'R
GEMAU PARALYMPAIDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Gemau Olympaidd a
Gemau Paralympaidd Llundain
(Hysbysebu a Masnachu) (Cymru)
2012**

Gwnaed

10 Ionawr 2012

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 19, 20(1), 22(8), 25, 26(1) a 28(6) o Ddeddf Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2006(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori yn unol â'r gofynion a nodir yn adrannau 20(3) a 26(3) ac wedi rhoi sylw i'r materion y cyfeirir atynt yn adrannau 19(2) a 25(2) o'r Ddeddf honno.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad yn unol ag adrannau 20(2) a 26(2) o'r Ddeddf honno(3).

(1) 2006 p.12. Cafodd adrannau 19, 20, 25 a 26 eu diwygio gan baragraff 6 o'r Atodlen i O.S. 2007/2129 a pharagraff 8 o'r Atodlen i O.S. 2010/1551.

(2) Mae adran 41(4) o Ddeddf Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2006 yn darparu y bydd adrannau 19 i 30, wrth eu cymhwyso i bethau a wneir yng Nghymru, yn cael effaith fel petai cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 iddi.

(3) Mae adrannau 20(2) a 26(2) o Ddeddf Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2006 yn darparu na chaniateir i reoliadau a wneir o dan adrannau 19 a 25 yn ôl eu trefn o'r Ddeddf honno gael eu gwneud oni fydd drafft o'r rheoliadau wedi ei osod gerbron dau dŷ'r Senedd a'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad. Mae adran 41(4) o'r Ddeddf honno'n darparu y bydd adrannau 19 i 30, wrth eu cymhwyso i bethau a wneir yng Nghymru, yn cael effaith fel petai cyfeiriad at benderfyniad y naill Dŷ Senedd a'r llall neu benderfyniad y naill neu'r llall yn gyfeiriad at benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2012 No. 60 (W.14)

**OLYMPIC GAMES AND
PARALYMPIC GAMES,
WALES**

**The London Olympic Games and
Paralympic Games (Advertising
and Trading) (Wales) Regulations
2012**

Made

10 January 2012

*Coming into force in accordance with
regulation 1(2)*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 19, 20(1), 22(8), 25, 26(1) and 28(6) of the London Olympic Games and Paralympic Games Act 2006(1), and now vested in them(2), make the following Regulations.

The Welsh Ministers have consulted in accordance with the requirements set out in sections 20(3) and 26(3) and have had regard to the matters referred to in sections 19(2) and 25(2) of that Act.

A draft of these Regulations was laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales in accordance with sections 20(2) and 26(2) of that Act(3).

(1) 2006 c.12. Sections 19, 20, 25 and 26 were amended by paragraph 6 of the Schedule to S.I. 2007/2129 and paragraph 8 of the Schedule to S.I. 2010/1551.

(2) Section 41(4) of the London Olympic Games and Paralympic Games Act 2006 provides that in their application to things done in Wales, sections 19 to 30 have effect as if a reference to the Secretary of State were a reference to the National Assembly for Wales. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 30(1) and 30(2)(c) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) Sections 20(2) and 26(2) of the London Olympic Games and Paralympic Games Act 2006 provide that regulations made under sections 19 and 25 respectively of that Act may not be made unless a draft of the regulations has been laid before and approved by a resolution of each House of Parliament. Section 41(4) of that Act provides that in their application to things done in Wales, sections 19 to 30 have effect as if a reference to a resolution of each or either House of Parliament were a reference to a resolution of the National Assembly for Wales.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cychwyn, dirwyn i ben a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (Hysbysebu a Masnachu) (Cymru) 2012.

(2) Deuant i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae eu heffaith yn peidio ar ddiwedd 14 Awst 2012.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Cymhwyso i'r Goron

2.—(1) Mae'r darpariaethau canlynol yn rhwymo'r Goron—

- (a) rheoliadau 5 i 11, a
- (b) rheoliadau 3, 4, 16 a 17 i'r graddau y maent yn ymwneud â gweithgaredd hysbysebu.

(2) Ond nid oes dim yn y Rheoliadau hyn sy'n gwneud y Goron yn atebol am dramgwydd.

Dehongli'n Gyffredinol

3. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adeilad" ("*building*") yw adeilad parhaol ond nid yw'n cynnwys caban ffôn;

ystyr "caban ffôn" ("*telephone kiosk*") yw unrhyw gaban, bwth, cwfl acwstig, cysgodfa neu adeiledd tebyg a godir neu a osodir er mwyn amgáu neu gynnal cyfarpar cyfathrebu electronig a hwnnw'n fan lle y mae gwasanaeth cyfathrebu electronig wedi ei ddarparu (neu lle y mae i'w ddarparu) gan weithredwr cod cyfathrebu electronig;

ystyr "cyfnod digwyddiad" ("*event period*") yw pob un o'r cyfnodau a ganlyn—

- (a) y cyfnod sy'n dechrau am 00:01 ar 24 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben am 23:59 ar 28 Gorffennaf 2012,
- (b) y cyfnod sy'n dechrau am 00:01 ar 30 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben am 23:59 ar 4 Awst 2012, ac
- (c) y cyfnod sy'n dechrau am 00:01 ar 9 Awst 2012 ac sy'n dod i ben am 23:59 ar 10 Awst 2012;

ystyr "daliedydd" ("*receptacle*") yw unrhyw beth sy'n cael ei ddefnyddio (p'un a yw wedi ei wneuthur neu wedi ei addasu at ddefnydd o'r fath) fel cynhwysydd i unrhyw eitem neu i arddangos unrhyw eitem, gan gynnwys—

- (a) unrhyw gerbyd, trelar neu ferfa, neu

PART 1

Introductory

Title, commencement, cessation and application

1.—(1) The title of these Regulations is the London Olympic Games and Paralympic Games (Advertising and Trading) (Wales) Regulations 2012.

(2) They come into force on the day after the day on which they are made.

(3) They cease to have effect at the end of 14 August 2012.

(4) These Regulations apply in relation to Wales.

Application to the Crown

2.—(1) The following provisions bind the Crown—

- (a) regulations 5 to 11, and
- (b) regulations 3, 4, 16 and 17 to the extent that they relate to advertising activity.

(2) But nothing in these Regulations makes the Crown liable for an offence.

General Interpretation

3. In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the London Olympic Games and Paralympic Games Act 2006;

"article" ("*eitem*") includes a living thing;

"building" ("*adeilad*") means a permanent building but excludes a telephone kiosk;

"event period" ("*cyfnod digwyddiad*") means each of the following periods—

- (a) the period beginning at 00:01 on 24 July 2012 and ending at 23:59 on 28 July 2012,
- (b) the period beginning at 00:01 on 30 July 2012 and ending at 23:59 on 4 August 2012, and
- (c) the period beginning at 00:01 on 9 August 2012 and ending at 23:59 on 10 August 2012;

"event zone" ("*parth digwyddiadau*") means the Millennium Stadium zone, being the area bounded externally by a dotted green line, including the airspace above that area, shown on the map signed on behalf of the Welsh Ministers, bearing the name of the event zone, the title of these Regulations, and the date September 2011, of which prints are deposited and available for inspection at the offices of the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ, and at the offices of Cardiff Council at County Hall, Atlantic Wharf, Cardiff, CF10 4UW, and at City Hall, Cathays Park, Cardiff, CF10 3ND;

(b) unrhyw fasedg, bag, blwch, llestr, stondin, stand, îsl, bwrdd, neu hambwrdd;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2006;

mae "eitem" ("*article*") yn cynnwys peth byw;

nid yw "papur newydd neu gyfnodolyn" ("*newspaper or periodical*") yn cynnwys papur newydd neu gyfnodolyn sydd wedi ei fwriadu'n benodol i hysbysebu un neu fwy o'r canlynol o fewn parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad—

- (a) nwyddau neu wasanaethau,
- (b) person sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau;

ystyr "parth digwyddiadau" ("*event zone*") yw parth Stadiwm y Mileniwm, sef yr ardal y mae llinell werdd ddotiog yn ffin allanol iddi, gan gynnwys y gofod awyr uwchben yr ardal honno, a ddangosir ar y map sydd wedi ei lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru, sy'n dwyn

enw'r parth digwyddiadau, enw'r Rheoliadau hyn, a'r dyddiad Medi 2011, ac y mae printiau ohono wedi eu hadneuo ac ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac yn swyddfeydd Cyngor Caerdydd yn Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW, ac yn Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3ND;

ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992(1); ac

mae "trwydded" ("*licence*") yn cynnwys unrhyw fath o gydsyniad, tystysgrif, caniatâd neu awdurdod (drwy ba enw bynnag) a roddir gan dirfeddiannwr, awdurdod lleol neu berson arall yn unol ag unrhyw ddeddfiad, Siarter neu ddogfen arall.

Yr effaith ar ddeddfwriaeth arall etc.

4. Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn—

- (a) sy'n awdurdodi person i wneud unrhyw beth sydd wedi ei wahardd (p'un ai mewn man penodol neu'n gyffredinol) drwy neu o dan unrhyw ddeddfiad neu reol o'r gyfraith, na
- (b) yn effeithio ar ofyniad mewn unrhyw ddeddfiad neu reol o'r gyfraith bod person yn dal trwydded cyn ymhel â gweithgaredd y mae'n ofynnol cael y drwydded honno'n ar ei gyfer (p'un ai mewn man penodol neu'n gyffredinol).

(1) O.S. 1992/666, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1994/2351; mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes unrhyw un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"licence" ("*trwydded*") includes any kind of consent, certificate, permission or authority (by whatever name) granted by a landowner, local authority or other person in accordance with any enactment, Charter or other document;

"newspaper or periodical" ("*papur newydd neu gyfnodolyn*") does not include a newspaper or periodical intended specifically to advertise one or more of the following within the event zone during an event period—

- (a) goods or services,
- (b) a person who provides goods or services;

"receptacle" ("*daliedydd*") means anything which is used (whether or not constructed or adapted for such use) as a container for or for the display of any article, including—

- (a) any vehicle, trailer or barrow, or
- (b) any basket, bag, box, vessel, stall, stand, easel, board, or tray;

"telephone kiosk" ("*caban ffôn*") means any kiosk, booth, acoustic hood, shelter or similar structure which is erected or installed for the purpose of housing or supporting electronic communications apparatus and at which an electronic communications service is provided (or is to be provided) by an electronic communications code operator; and

"the 1992 Regulations" ("*Rheoliadau 1992*") means the Town and Country Planning (Control of Advertisements) Regulations 1992(1).

Effect on other legislation etc.

4. Nothing in these Regulations—

- (a) authorises a person to do anything that is prohibited (whether in a particular place or generally) by or under any enactment or rule of law, or
- (b) affects a requirement of any enactment or rule of law that a person hold a licence before engaging in activity for which that licence is required (whether in a particular place or generally).

(1) S.I. 1992/666, amended by S.I. 1994/2351; there are other amending instruments but none are relevant to these Regulations.

Dehongli'r Rhan hon

5.—(1) Yn y Rhan hon—

mae "arddangos hysbyseb" ("*displaying an advertisement*") yn cynnwys (heb leihau effaith yr ymadrodd hwnnw'n gyffredinol)—

- (a) taflunio, allyrru neu sgrinio hysbyseb neu ei rhoi ar ddangos,
- (b) cario neu ddal hysbyseb neu gyfarpar a ddefnyddir i arddangos hysbyseb,
- (c) darparu bod—
 - (i) hysbyseb yn cael ei harddangos ar anifail, neu
 - (ii) cyfarpar a ddefnyddir i arddangos hysbyseb yn cael ei gario neu ei ddal gan anifail,
- (ch) gwneud un neu fwy o'r canlynol fel rhan o ymgyrch marchnata rhagod—
 - (i) cario neu ddal eiddo personol y mae hysbyseb wedi ei harddangos arno,
 - (ii) gwisgo gwisg hysbysebu,
 - (iii) arddangos hysbyseb ar gorff unigolyn;

ystyr "corff di-elw" ("*not-for-profit body*") yw corff sydd, yn rhinwedd ei gyfansoddiad neu unrhyw ddeddfiad—

- (a) yn un y mae'n ofynnol iddo (ar ôl talu all daliadau) ddefnyddio'r cyfan o'i incwm, ac unrhyw gyfalaf y mae'n ei wario, at ddibenion elusennol neu gyhoeddus, a
- (b) wedi ei wahardd rhag dosbarthu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ymhlith ei aelodau unrhyw ran o'i asedau (ac eithrio at ddibenion elusennol neu gyhoeddus);

ystyr "deunydd hyrwyddo" ("*promotional material*") yw dogfen neu eitem a ddosberthir neu a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n rhannol er mwyn hyrwyddo, hysbysebu, cyhoeddi neu gyfarwyddo;

ystyr "gweithgaredd hysbysebu" ("*advertising activity*") yw—

- (a) arddangos hysbyseb, neu
- (b) dosbarthu neu ddarparu deunydd hyrwyddo;

ystyr "gwisg hysbysebu" ("*advertising attire*") yw—

- (a) trwsiad sy'n hysbyseb, neu
- (b) dilledyn y mae hysbyseb wedi ei harddangos arno;

ystyr "hysbyseb" ("*advertisement*") yw unrhyw air, llythyren, delwedd, marc, sain, golau, model,

Interpretation of this Part

5.—(1) In this Part—

"advertisement" ("*hysbyseb*") means any word, letter, image, mark, sound, light, model, sign, placard, board, notice, screen, awning, blind, flag, device, costume or representation, whether illuminated or not, in the nature of, and employed wholly or partly for the purpose of, promotion, advertisement, announcement or direction;

"advertiser" ("*hysbysebwr*") means a person who engages in advertising activity;

"advertising activity" ("*gweithgaredd hysbysebu*") means—

- (a) displaying an advertisement, or
- (b) distributing or providing promotional material;

"advertising attire" ("*gwisg hysbysebu*") means—

- (a) a costume that is an advertisement, or
- (b) clothing on which an advertisement is displayed;

"ambush marketing campaign" ("*ymgyrch marchnata rhagod*") means a campaign (whether consisting of one act or a series of acts) intended specifically to promote, advertise, announce or direct one or more of the following within the event zone during an event period—

- (a) goods or services,
- (b) a person who provides goods or services;

"displaying an advertisement" ("*arddangos hysbyseb*") includes (without prejudice to the generality of that expression)—

- (a) projecting, emitting, screening or exhibiting an advertisement,
- (b) carrying or holding an advertisement or an apparatus by which an advertisement is displayed,
- (c) providing for—
 - (i) an advertisement to be displayed on an animal, or
 - (ii) an apparatus by which an advertisement is displayed to be carried or held by an animal,
- (d) doing one or more of the following as part of an ambush marketing campaign—
 - (i) carrying or holding personal property on which an advertisement is displayed,
 - (ii) wearing advertising attire,
 - (iii) displaying an advertisement on an

arwydd, hysbyslen, bwrdd, hysbysiad, sgrîn, cysgodlen, bleind, baner, dyfais, trwsiad neu ddarluniad, p'un a yw'n oleuedig ai peidio, sydd o ran ei natur yn hyrwyddo, yn hysbysebu, yn cyhoeddi neu'n cyfarwyddo ac yn cael ei ddefnyddio neu ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol er mwyn gwneud hynny;

ystyr "hysbysebwr" ("*advertiser*") yw person sy'n ymhel â gweithgaredd hysbysebu; ac

ystyr "ymgyrch marchnata rhagod" ("*ambush marketing campaign*") yw ymgyrch (p'un a yw'n un weithred neu'n gyfres o weithredoedd) sydd wedi ei bwriadu'n benodol i hyrwyddo, hysbysebu, cyhoeddi neu gyfarwyddo un neu fwy o'r canlynol o fewn parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad—

- (a) nwyddau neu wasanaethau,
- (b) person sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau.

(2) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at berson sy'n ymhel â gweithgaredd hysbysebu i'w drin fel cyfeiriad sy'n cynnwys person y mae rheoliad 6(2) yn gymwys iddo.

(3) Nid yw gweithgaredd hysbysebu sy'n cynnwys arddangos hysbyseb ar ddyfais gyfathrebu bersonol i'w drin fel gweithgaredd hysbysebu at ddibenion y Rhan hon onid yw'r hysbysebwr yn bwriadu bod yr hysbyseb yn cael ei harddangos, drwy gyfrwng y ddyfais, i'r cyhoedd yn gyffredinol (yn hytrach na'i harddangos i neb ond yr unigolyn sy'n defnyddio'r ddyfais).

(4) Ym mharagraff (3), ystyr "dyfais gyfathrebu bersonol" ("*personal communication device*") yw ffôn symudol neu ddyfais gyfathrebu ryngweithiol bersonol arall.

Rheoli gweithgaredd hysbysebu

6.—(1) Rhaid i berson beidio ag ymhel â gweithgaredd hysbysebu yn y parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad.

(2) Mae person i'w drin fel un sy'n mynd yn groes i baragraff (1) os yw'n trefnu (ar unrhyw bryd ac mewn unrhyw le) i weithgaredd hysbysebu gael ei gynnal yn y parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad.

(3) Mae person i'w drin hefyd fel un sy'n mynd yn groes i baragraff (1) os yw gweithgaredd hysbysebu yn y parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad—

- (a) yn ymwneud â nwyddau, gwasanaethau, busnes neu gonsŷrn arall y mae ganddo fuddiant ynddo neu y mae'n gyfrifol amdano, neu
- (b) yn cael ei gynnal ar dir, mangre neu eiddo arall y mae'n berchen arno neu arni neu y mae'n ei feddiannu neu'n ei meddiannu neu y mae

individual's body;

"not-for-profit body" ("*corff di-elw*") means a body which, by virtue of its constitution or any enactment—

- (a) is required (after payment of outgoings) to apply the whole of its income, and any capital which it expends, for charitable or public purposes, and
- (b) is prohibited from directly or indirectly distributing amongst its members any part of its assets (otherwise than for charitable or public purposes); and

"promotional material" ("*deunydd hyrwyddo*") means a document or article distributed or provided wholly or partly for the purpose of promotion, advertisement, announcement or direction.

(2) In this Part, a reference to a person who engages in advertising activity is to be treated as including a person to whom regulation 6(2) applies.

(3) Advertising activity that consists of the display of an advertisement on a personal communication device is not to be treated as advertising activity for the purposes of this Part unless the advertiser intends the advertisement to be displayed, by means of the device, to the public at large (rather than only to the individual using the device).

(4) In paragraph (3), "personal communication device" ("*dyfais gyfathrebu bersonol*") means a mobile telephone or other personal interactive communication device.

Control of advertising activity

6.—(1) A person must not engage in advertising activity in the event zone during an event period.

(2) A person is to be treated as contravening paragraph (1) if that person arranges (at any time and in any place) for advertising activity to take place in the event zone during an event period.

(3) A person is also to be treated as contravening paragraph (1) if advertising activity in the event zone during an event period—

- (a) relates to goods, services, a business or other concern in which that person has an interest or for which that person is responsible, or
- (b) takes place on land, premises or other property that that person owns or occupies or of which that person has responsibility for the

ganddo gyfrifoldeb dros ei reoli neu ei rheoli.

(4) Heb leihau effaith paragraff (3) yn gyffredinol—

- (a) mae person i'w drin fel un sydd â buddiant mewn busnes neu gonsŷrn arall, neu gyfrifoldeb dros y naill neu'r llall, os yw'n swyddog i'r busnes neu'r consŷrn hwnnw,
- (b) mae person i'w drin fel un sydd â buddiant mewn nwyddau neu wasanaethau, neu gyfrifoldeb dros y naill neu'r llall, os yw'n swyddog i fusnes neu gonsŷrn arall sydd â buddiant yn y nwyddau neu'r gwasanaethau, neu sy'n gyfrifol am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny, ac
- (c) mae person i'w drin fel un sydd â chyfrifoldeb dros reoli tir, mangre neu eiddo arall os yw'n swyddog i fusnes neu gonsŷrn arall sy'n berchen ar y tir, y fangre neu'r eiddo arall, yn ei feddiannu neu'n ei meddiannu neu sydd â chyfrifoldeb dros ei reoli neu ei rheoli.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "swyddog" ("*an officer*") yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall tebyg.

(6) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran gweithgaredd hysbysebu p'un a yw'n cynnwys canlyniad neu barhad gweithgaredd a gyflawnwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Eithriad ar gyfer gwrthdystiadau, etc.

7.—(1) Nid yw rheoliad 6 yn gymwys i weithgaredd hysbysebu sydd wedi ei fwriadu—

- (a) i ddangos cefnogaeth neu wrthwynebiad i ddaliadau neu weithredoedd unrhyw berson neu gorff o bersonau,
- (b) i roi cyhoeddusrwydd i gred, achos neu ymgyrch, neu
- (c) i gofnodi neu goffáu digwyddiad.

(2) Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys i weithgaredd hysbysebu sy'n hyrwyddo neu'n hysbysebu—

- (a) nwyddau neu wasanaethau, neu
- (b) person neu gorff (ac eithrio corff di-elw) sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau.

Eithriad ar gyfer unigolion sy'n gwisgo gwisg hysbysebu, yn arddangos hysbysebion ar eu cyrff, neu'n cario eiddo personol

8.—(1) Nid yw rheoliad 6 yn gymwys i unigolion sy'n ymhel â gweithgaredd hysbysebu yn unig drwy wneud un neu fwy o'r canlynol, oni bai eu bod yn gwybod neu fod ganddynt le rhesymol i gredu eu bod yn cymryd rhan mewn ymgyrch marchnata rhagod—

- (a) gwisgo gwisg hysbysebu,

management.

(4) Without prejudice to the generality of paragraph (3)—

- (a) a person is to be treated as having an interest in or responsibility for a business or other concern if that person is an officer of the business or concern,
- (b) a person is to be treated as having an interest in or responsibility for goods or services if that person is an officer of a business or other concern that has an interest in or is responsible for the goods or services, and
- (c) a person is to be treated as having responsibility for the management of land, premises or other property if that person is an officer of a business or other concern that owns, occupies or has responsibility for the management of the land, premises or other property.

(5) In paragraph (4), "an officer" ("*swyddog*") means a director, manager, secretary or other similar officer.

(6) This regulation applies in relation to advertising activity whether or not it consists of the result or continuation of activity carried out before these Regulations came into force.

Exception for demonstrations, etc.

7.—(1) Regulation 6 does not apply to advertising activity intended to—

- (a) demonstrate support for or opposition to the views or actions of any person or body of persons,
- (b) publicise a belief, cause or campaign, or
- (c) mark or commemorate an event.

(2) But this exception does not apply to advertising activity that promotes or advertises—

- (a) goods or services, or
- (b) a person or body (excluding a not-for-profit body) that provides goods or services.

Exception for individuals wearing advertising attire, displaying advertisements on their bodies, or carrying personal property

8.—(1) Regulation 6 does not apply to individuals who engage in advertising activity only by doing one or more of the following, unless the individuals know or have reasonable cause to believe that they are participating in an ambush marketing campaign—

- (a) wearing advertising attire,

- (b) arddangos hysbyseb ar gorff yr unigolyn,
- (c) cario neu ddal eiddo personol y mae hysbyseb wedi ei harddangos arno.

(2) Nid yw'r ffaith bod yr eithriad hwn yn gymwys i unigolion yn effeithio ar gymhwyso rheoliad 6 i unrhyw berson arall (p'un ai mewn cysylltiad â'r un gweithgaredd hysbysebu neu fel arall).

Eithriadau ar lun Rheoliadau 1992

9.—(1) Nid yw rheoliad 6 yn gymwys i weithgaredd hysbysebu sy'n cynnwys arddangos hysbyseb—

- (a) o fewn Dosbarth A bennir yng ngholofn gyntaf Atodlen 2 i Reoliadau 1992 cyhyd â bod yr arddangosiad neu'r hysbyseb yn cydymffurfio â'r amodau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(2) o'r Rheoliadau hynny,
- (b) o fewn Dosbarth B bennir yn Rhan 1 o Atodlen 3 i Reoliadau 1992 yn ddarostyngedig i'r amodau a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 6(1)(a) a (b) o'r Rheoliadau hynny, neu
- (c) sy'n hysbyseb oleuedig ar fangre busnes—
 - (i) y rhoddwyd iddi gydsyniad pendant o fewn ystyr "express consent" a nodir yn rheoliad 5(1) o Reoliadau 1992 cyn y dyddiad y daeth y Rheoliadau hyn i rym, a
 - (ii) sy'n cydymffurfio â'r amodau a'r cyfyngiadau a bennir ym mharagraffau (2) i (11) o Ddosbarth 4B yn Rhan 1 o Atodlen 3 i Reoliadau 1992.

(2) Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys i arddangos hysbyseb—

- (a) o fewn Dosbarth A (hysbysebion ar falŵns),
- (b) o fewn Dosbarth B (hysbysebion a arddangosir ar dir caeëdig) pan fo'r tir caeëdig y mae'r hysbyseb wedi ei harddangos arno—
 - (i) yn orsaf reilffordd (a'i iardiau) neu'n orsaf fysiau (ynghyd â'i blaengwrt, p'un a yw wedi ei amgáu ai peidio), neu
 - (ii) yn dir caeëdig (gan gynnwys stadiwm chwaraeon neu adeilad arall) y mae Digwyddiad Olympaidd Llundain(1) yn cael ei gynnal neu i'w gynnal arno neu ynddo,
- (c) o fewn Dosbarth D (hysbysebion a ymgorfforir yn adeiladwaith adeiladau) nad oedd yn bodoli ar y dyddiad y daeth y Rheoliadau hyn i rym,
- (ch) o fewn Dosbarth J (hysbysebion a arddangosir

- (b) displaying an advertisement on the individual's body,
- (c) carrying or holding personal property on which an advertisement is displayed.

(2) The fact that this exception applies to individuals does not affect the application of regulation 6 to any other person (whether in respect of the same advertising activity or otherwise).

Exceptions modelled on the 1992 Regulations

9.—(1) Regulation 6 does not apply to advertising activity that consists of the display of an advertisement—

- (a) within a Class specified in the first column of Schedule 2 to the 1992 Regulations so long as the display or the advertisement complies with the conditions referred to in regulation 3(2) of those Regulations,
- (b) within a Class specified in Part 1 of Schedule 3 to the 1992 Regulations subject to the conditions and limitations referred to in regulation 6(1)(a) and (b) of those Regulations, or
- (c) which is an illuminated advertisement on business premises—
 - (i) to which express consent within the meaning set out in regulation 5(1) of the 1992 Regulations was granted before the date on which these Regulations come into force, and
 - (ii) that complies with the conditions and limitations specified in paragraphs (2) to (11) of Class 4B in Part 1 of Schedule 3 to the 1992 Regulations.

(2) But this exception does not apply to the display of an advertisement—

- (a) within Class A (advertisements on balloons),
- (b) within Class B (advertisements displayed on enclosed land) where the enclosed land on which the advertisement is displayed is—
 - (i) a railway station (and its yards) or bus station (together with its forecourt, whether enclosed or not), or
 - (ii) enclosed land (including a sports stadium or other building) on or in which a London Olympic Event(1) is taking place or to take place,
- (c) within Class D (advertisements incorporated in the fabric of buildings) which was not in existence on the date on which these Regulations came into force,
- (d) within Class J (advertisements displayed

(1) Mae'r term cyfatebol Saesneg, sef "London Olympic Event", wedi ei ddiffinio yn adran 1(3)(b) o'r Ddeddf.

(1) "London Olympic Event" is defined in section 1(3)(b) of the Act.

- y tu mewn i adeiladau), ac eithrio hysbysiad busnes esempt, pan fo'r adeilad y mae'r hysbyseb wedi ei harddangos ynddo—
- (i) yn rhan neu'n ffurfio rhan o orsaf reilffordd neu orsaf fysiau, neu
- (ii) yn stadiwm chwaraeon neu'n adeilad arall y mae Digwyddiad Olympaidd Llundain yn cael ei gynnal neu i'w gynnal ynddo,
- (d) o fewn Dosbarth 1B (hysbysebion a arddangosir gan awdurdodau cynllunio lleol)—
- (i) nad yw wedi ei harddangos yn gyfan gwbl er mwyn cyhoeddi neu gyfarwyddo mewn perthynas ag unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod cynllunio lleol y mae wedi ei harddangos drwyddo, a
- (ii) nad yw'n rhesymol ofynnol iddi gael ei harddangos i gyflawni'r swyddogaethau hynny'n ddiogel neu'n effeithlon,
- (dd) o fewn Dosbarth 3D (hysbysebion sy'n cyhoeddi digwyddiadau a gweithgareddau lleol) sy'n hyrwyddo neu'n hysbysebu—
- (i) nwyddau neu wasanaethau, neu
- (ii) person neu gorff (ac eithrio corff di-elw) sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau,
- (e) o fewn Dosbarth 3F (hysbysebion sy'n ymwneud â sycasau teithiol, ffeiriau neu adloniannau teithiol tebyg),
- (f) o fewn Dosbarth 7B (baneri ar safleoedd datblygu preswyl) nad yw'n ymwneud â'r datblygiad nac â pherson sy'n cyflawni'r datblygiad neu agwedd ar y datblygiad,
- (ff) o fewn Dosbarth 8 (hysbysebion ar hysbysfyrddau),
- (g) o fewn Dosbarth 9 (hysbysebion ar adeileddau priffordd),
- (ng) o fewn Dosbarth 12 (hysbysebion a arddangosir y tu mewn i adeiladau), ac eithrio hysbyseb busnes esempt, pan fo'r adeilad y mae'r hysbyseb wedi ei harddangos ynddo—
- (i) yn rhan neu'n ffurfio rhan o orsaf reilffordd neu orsaf fysiau, neu
- (ii) yn stadiwm chwaraeon neu'n adeilad arall y mae Digwyddiad Olympaidd Llundain yn cael ei gynnal neu i'w gynnal ynddo,
- (h) o fewn Dosbarth 13 (hysbysebion ar safleoedd a ddefnyddir i arddangos hysbysebion heb gydsyniad pendant),
- (i) o fewn Dosbarth 14 (hysbysebion a arddangosir ar ôl i gydsyniad pendant ddirwyn i ben).
- (3) Yn y rheoliad hwn—
- (a) ystyr "hysbysiad busnes esempt" ("*exempt*
- inside buildings), other than an exempt business advertisement, where the building in which the advertisement is displayed—
- (i) is or forms part of a railway station or bus station, or
- (ii) is a sports stadium or other building in which a London Olympic Event is taking place or to take place,
- (e) within Class 1B (advertisements displayed by local planning authorities) that—
- (i) is not displayed wholly for the purpose of announcement or direction in relation to any of the functions of the local planning authority by which it is displayed, and
- (ii) is not reasonably required to be displayed for the safe or efficient performance of those functions,
- (f) within Class 3D (advertisements announcing local events and activities) that promotes or advertises—
- (i) goods or services, or
- (ii) a person or body (other than a not-for-profit body) that provides goods or services,
- (g) within Class 3F (advertisements relating to travelling circuses, fairs or similar travelling entertainments),
- (h) within Class 7B (flags on residential development sites) that does not relate to the development or to a person carrying out the development or an aspect of the development,
- (i) within Class 8 (advertisements on hoardings),
- (j) within Class 9 (advertisements on highway structures),
- (k) within Class 12 (advertisements displayed inside buildings), other than an exempt business advertisement, where the building in which the advertisement is displayed—
- (i) is or forms part of a railway station or bus station, or
- (ii) is a sports stadium or other building in which a London Olympic Event is taking place or to take place,
- (l) within Class 13 (advertisements on sites used for the display of advertisements without express consent),
- (m) within Class 14 (advertisements displayed after expiry of express consent).
- (3) In this regulation—
- (a) "exempt business advertisement" ("*hysbysiad*

business advertisement") yw hysbyseb (p'un ai'n oleuedig ai peidio) a arddangosir ar fangre busnes y tu mewn i adeilad (neu flaengwrt sy'n gysylltiedig â mangre o'r fath) sy'n cyfeirio'n gyfan gwbl at unrhyw rai neu'r cyfan o'r canlynol: y busnes sy'n cael ei redeg, y nwyddau neu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu neu enw neu gymwysterau'r person sy'n rhedeg y busnes, neu'n darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau, ar y fangre honno,

- (b) mae cyfeiriad at "Dosbarth" ("Class") hysbyseb yn gyfeiriad at Ddosbarth cyfatebol hysbyseb yn Atodlen 2 neu (yn ôl fel y digwydd) 3 i Reoliadau 1992, ac
- (c) mae i "mangre busnes" a "blaengwrt" yr un ystyr â "*business premises*" a "forecourt" yn Atodlen 3 i Reoliadau 1992(1).

(4) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) mae Rhan 2 o Atodlen 3 i Reoliadau 1992 yn gymwys i ddehongli'r Atodlen honno,
- (b) mae cyfeiriad at adeilad yn Atodlen 2 neu 3 i Reoliadau 1992 i'w ddehongli'n unol â'r diffiniad o adeilad yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn,
- (c) mae cyfeiriad at arddangos hysbyseb (sut bynnag y mae wedi ei eirio) yn Atodlen 2 neu 3 i Reoliadau 1992 i'w ddehongli'n unol â'r diffiniad yn rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn, ac
- (ch) mae cyfeiriad at gerbyd yn Atodlen 2 i Reoliadau 1992 yn cynnwys beic.

Eithriadau eraill

10.—(1) Nid yw rheoliad 6 yn gymwys i'r gweithgaredd hysbysebu a ganlyn—

- (a) arddangos hysbyseb sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl fel—
 - (i) cofeb, neu
 - (ii) signal rheilffordd,
- (b) dosbarthu neu ddarparu papur newydd neu gyfnodolyn cyfredol, naill heb ddaliodydd neu o ddaliodydd nad yw'n achosi ymyrraeth ormodol neu anghyfleustra gormodol i bersonau sy'n defnyddio'r stryd,
- (c) gweithgaredd hysbysebu yr ymgymeryr ag ef yn unol ag amod sydd ynghlwm wrth awdurdodiad a roddwyd o dan reoliad 15 (gweithgaredd masnachu a awdurdodir gan Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd etc.),
- (ch) arddangos hysbyseb ar awyren at un neu fwy o'r dibenion a ganlyn—

(1) *Gweler* paragraff 1(1) o Ran 2 o Atodlen 3 i Reoliadau 1992.

busnes esempt") means an advertisement (whether illuminated or not) displayed on business premises within a building (or a forecourt associated with such premises) that refers wholly to any or all of the following: the business carried on, the goods or services provided or the name or qualifications of the person carrying on the business, or providing the goods or services, on those premises,

- (b) a reference to a "Class" ("*Dosbarth*") of advertisement is a reference to the corresponding Class of advertisement in Schedule 2 or (as the case may be) 3 to the 1992 Regulations, and
- (c) "business premises" ("*mangre busnes*") and "forecourt" ("*blaengwrt*") have the same meaning as in Schedule 3 to the 1992 Regulations(1).

(4) For the purposes of this regulation—

- (a) Part 2 of Schedule 3 to the 1992 Regulations applies for the interpretation of that Schedule,
- (b) a reference to a building in Schedule 2 or 3 to the 1992 Regulations is to be construed in accordance with the definition of building in regulation 3 of these Regulations,
- (c) a reference to displaying an advertisement (however phrased) in Schedule 2 or 3 to the 1992 Regulations is to be construed in accordance with the definition in regulation 5 of these Regulations, and
- (d) a reference to a vehicle in Schedule 2 to the 1992 Regulations includes a bicycle.

Other exceptions

10.—(1) Regulation 6 does not apply to the following advertising activity—

- (a) displaying an advertisement that is employed wholly as—
 - (i) a memorial, or
 - (ii) a railway signal,
- (b) distributing or providing a current newspaper or periodical, either without a receptacle or from a receptacle that does not cause undue interference or inconvenience to persons using the street,
- (c) advertising activity undertaken in accordance with a condition attached to an authorisation granted under regulation 15 (trading activity authorised by the Olympic Delivery Authority etc.),
- (d) displaying an advertisement on an aircraft for one or more of the following purposes—

(1) *See* paragraph 1(1) of Part 2 to Schedule 3 to the 1992 Regulations.

- (i) cydymffurfio â chyfraith y Deyrnas Unedig neu unrhyw wlad arall, sef y gyfraith sydd mewn grym mewn perthynas â'r awyren,
 - (ii) sicrhau diogelwch yr awyren neu unrhyw berson neu eiddo ynddi,
 - (iii) hyrwyddo, gan neu ar ran adran o'r Llywodraeth gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan berson sy'n gweithredu o dan unrhyw ddyletswydd gyhoeddus neu gan berson sy'n darparu cyfleusterau ambiwlans neu gyfleusterau achub drwy'r awyr, fesurau mewn cysylltiad ag amgylchiadau, sy'n bodoli neu ar ddyfod ar yr adeg y mae'r awyren yn cael ei defnyddio, ac a allai achosi perygl i bersonau neu eiddo,
 - (iv) dibenion amddiffyn sifil, dibenion milwrol neu ddibenion heddlu,
- (d) arddangos marc neu arysgrif (ac eithrio arwydd goleuedig) ar gorff awyren neu hofrennydd, neu
- (dd) arddangos hysbyseb ar ddodrefnyn stryd ar yr amod—
- (i) bod yr hysbyseb heb ei oleuo,
 - (ii) mai'r unig bethau y mae'r hysbyseb yn eu dwyn yw enw, manylion cyswllt a dyfais (neu unrhyw un neu fwy o'r pethau hynny) gweithgynhyrhydd, perchennog neu weithredwr y dodrefn stryd (neu unrhyw un neu fwy o'r personau hynny), a
 - (iii) nad yw'r hysbyseb wedi ei harddangos fel rhan o ymgyrch marchnata rhagod.
- (i) complying with the law of the United Kingdom or any other country, being law in force in relation to the aircraft,
 - (ii) securing the safety of the aircraft or any person or property therein,
 - (iii) the furtherance, by or on behalf of a Government department including the Welsh Assembly Government, by a person acting under any public duty or by a person providing ambulance or rescue facilities by air, of measures in connection with circumstances, existing or imminent at the time the aircraft is used, which may cause danger to persons or property,
 - (iv) civil defence, military or police purposes,
- (e) displaying a mark or inscription (other than an illuminated sign) on the body of an aeroplane or helicopter, or
- (f) displaying an advertisement on an item of street furniture provided that the advertisement—
- (i) is not illuminated,
 - (ii) bears only the name, contact details and device (or any one or more of those things) of the manufacturer, owner or operator of the street furniture (or any one or more of those persons), and
 - (iii) is not displayed as part of an ambush marketing campaign.

Hysbysebu yr ymgymerir ag ef neu a awdurdoddir gan Bwyllgor Trefnu Llundain

11.—(1) Nid yw rheoliad 6 yn gymwys i weithgaredd hysbysebu yr ymgymerir ag ef neu a reolir gan—

- (a) Pwyllgor Trefnu Llundain(1), na
- (b) unrhyw berson a awdurdoddir gan y Pwyllgor hwnnw (p'un a yw'n ddarostyngedig i delerau ac amodau a osodwyd gan y Pwyllgor hwnnw ai peidio a ph'un a yw'n unol â chytundeb nawdd neu gytundeb masnachol arall gyda'r Pwyllgor hwnnw ai peidio).

(2) Yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn, mae gan Bwyllgor Trefnu Llundain ddisgresiwn llwyr mewn cysylltiad â phob cais am awdurdodiad a gyflwynir iddo.

Advertising undertaken or authorised by the London Organising Committee

11.—(1) Regulation 6 does not apply to advertising activity undertaken or controlled by—

- (a) the London Organising Committee(1), or
- (b) any person authorised by that Committee (whether or not subject to terms and conditions imposed by that Committee and whether or not in accordance with a sponsorship or other commercial agreement with that Committee).

(2) Subject to these Regulations, the London Organising Committee has an absolute discretion in respect of each application to it for authorisation.

(1) Mae'r term cyfatebol Saesneg, sef "the London Organising Committee", wedi ei ddiffinio yn adran 1(3)(d) o'r Ddeddf. Ers pasio'r Ddeddf, mae "the London Organising Committee" wedi newid ei enw cofrestredig i "The London Organising Committee of the Olympic Games and Paralympic Games Limited."

(1) "the London Organising Committee" is defined in section 1(3)(d) of the Act. Since the passing of the Act, the London Organising Committee has changed its registered name to The London Organising Committee of the Olympic Games and Paralympic Games Limited.

(3) Rhaid i Bwyllgor Trefnu Llundain roi sylw i ddarpariaethau Contract y Ddinas Groesawu(1) cyn ymhel â gweithgaredd hysbysebu neu roi awdurdodiad o dan y rheoliad hwn.

(4) Mae hawl Pwyllgor Trefnu Llundain i ymhel â gweithgaredd hysbysebu yn unol â'r rheoliad hwn ac unrhyw awdurdodiad a roddir ganddo yn ddarostyngedig i bob un o'r amodau a ganlyn—

- (a) bod yr hysbysebwr yn dal unrhyw drwydded y mae'n ofynnol ei chael, yn ychwanegol at awdurdodiad gan neu o dan y rheoliad hwn, cyn y caiff person ymhel â gweithgaredd hysbysebu (p'un ai mewn man penodol neu'n gyffredinol),
- (b) na chaiff unrhyw hysbyseb ei lleoli neu ei harddangos yn y fath fodd ag i—
 - (i) peryglu personau sy'n defnyddio unrhyw briffordd, rheilffordd, neu ddyfrffordd,
 - (ii) cuddio unrhyw arwydd traffig, signal rheilffordd neu gymorth mordwyo neu awyrlwio, neu atal yr arwydd, y signal neu'r cymorth hwnnw rhag cael ei ddehongli'n ddidrafferth, neu
 - (iii) atal gweithrediad unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion diogelwch neu wylriadwriaeth neu i fesur cyflymder unrhyw gerbyd, ac
- (c) bod yr hysbysebwr yn cadw unrhyw hysbyseb mewn cyflwr na fydd—
 - (i) yn amharu ar amwynder gweledol y safle, na
 - (ii) yn gosod y cyhoedd mewn perygl.

RHAN 3

Gweithgaredd Masnachu

Dehongli'r Rhan hon

12.—(1) Yn y Rhan hon—

- (a) mae cyfeiriad at berson sy'n ymhel â gweithgaredd masnachu i'w drin fel cyfeiriad sy'n cynnwys person y mae rheoliad 13(2) yn gymwys iddo;
- (b) mae cyfeiriad (sut bynnag y mae wedi ei eirio) at werthu eitem yn cynnwys rhoi eitem ar ddangos i'w gwerthu neu ei chynnig i'w gwerthu;
- (c) mae cyfeiriad (sut bynnag y mae wedi ei eirio) at gyflenwi gwasanaeth yn cynnwys cynnig cyflenwi gwasanaeth;

(1) Mae'r term Saesneg cyfatebol, sef "Host City Contract", wedi ei ddiffinio yn adran 1(3)(e) o'r Ddeddf.

(3) The London Organising Committee must have regard to the provisions of the Host City Contract(1) before engaging in advertising activity or granting an authorisation under this regulation.

(4) The London Organising Committee's right to engage in advertising activity pursuant to this regulation and any authorisation granted by it are subject to all of the following conditions—

- (a) that the advertiser holds any licence which, in addition to authorisation by or under this regulation, is required before a person may engage in advertising activity (whether in a particular place or generally),
- (b) that no advertisement be sited or displayed so as to—
 - (i) endanger persons using any highway, railway, or waterway,
 - (ii) obscure, or hinder the ready interpretation of, any traffic sign, railway signal or aid to navigation by water or air, or
 - (iii) hinder the operation of any device used for the purpose of security or surveillance or for measuring the speed of any vehicle, and
- (c) that the advertiser maintains any advertisement in a condition that does not—
 - (i) impair the visual amenity of the site, or
 - (ii) endanger the public.

PART 3

Trading Activity

Interpretation of this Part

12.—(1) In this Part—

- (a) a reference to a person who engages in trading activity is to be treated as including a person to whom regulation 13(2) applies;
- (b) a reference (however phrased) to selling an article includes exposing or offering an article for sale;
- (c) a reference (however phrased) to supplying a service includes offering to supply a service;

(1) "Host City Contract" is defined in section 1(3)(e) of the Act.

- (ch) mae i "cerbyd modur" yr un ystyr â "motor vehicle" yn Neddf Traffig Ffyrdd 1988(1);
- (d) ystyr "man cyhoeddus agored" ("open public place") yw—
- (i) priffordd, neu
 - (ii) man arall—
- (aa) y caiff y cyhoedd fynd iddo (p'un ai'n gyffredinol neu at ddibenion y gweithgaredd masnachu yn unig), a
 - (bb) nad yw mewn adeilad ac eithrio un sydd wedi ei ddylunio neu'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i barcio ceir;
- (dd) ystyr "perfformiad drama" ("*performance of a play*") yw perfformiad unrhyw ddarn o waith dramatig, p'un a yw'n cynnwys byrffyr ai peidio—
- (i) a hwnnw'n ddarn sy'n cael ei gyflawni'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan un neu fwy o bersonau sy'n bresennol mewn gwirionedd ac yn perfformio, a
 - (ii) lle y mae'r cyfan neu ran sylweddol o'r hyn a wneir gan y person neu'r personau sy'n perfformio, p'un ai drwy gyfrwng lleferydd, canu neu weithred, yn cynnwys chwarae rôl;
- (e) ystyr "adloniant cyhoeddus" ("*public entertainment*") yw adloniant o un neu fwy o'r disgrifiadau canlynol a ddarperir ar gyfer aelodau o'r cyhoedd—
- (i) perfformiad o gerddoriaeth fyw,
 - (ii) unrhyw chwarae cerddoriaeth sydd wedi ei recordio,
 - (iii) perfformiad dawn,
 - (iv) perfformiad drama,
 - (v) adloniant o ddisgrifiad tebyg i'r hyn sy'n dod o fewn paragraffau (i) i (iv);
- (f) mae "gwerthu eitem" ("*selling an article*") yn cynnwys (heb leihau effaith y term hwnnw'n gyffredinol) fasnachu gan berson sy'n gweithredu fel pedler (p'un a yw o dan awdurdod tystysgrif pedler a roddwyd o dan adran 4 o Ddeddf Bedleriaid 1871(2)); ac
- (ff) ystyr "gweithgaredd masnachu" ("*trading activity*") yw cyflawni un neu fwy o'r gweithgareddau canlynol mewn man cyhoeddus agored—
- (i) gwerthu eitem,
 - (ii) cyflenwi gwasanaeth,
- (d) "motor vehicle" ("*cerbyd modur*") has the same meaning as in the Road Traffic Act 1988(1);
- (e) "open public place" ("*man cyhoeddus agored*") means—
- (i) a highway, or
 - (ii) another place—
- (aa) to which the public have access (whether generally or only for the purpose of the trading activity), and
 - (bb) which is not in a building other than one designed or generally used for the parking of cars;
- (f) "performance of a play" ("*perfformiad drama*") means performance of any dramatic piece, whether involving improvisation or not—
- (i) which is given wholly or in part by one or more persons actually present and performing, and
 - (ii) in which the whole or a major proportion of what is done by the person or persons performing, whether by way of speech, singing or action, involves the playing of a role;
- (g) "public entertainment" ("*adloniant cyhoeddus*") means entertainment of one or more of the following descriptions provided for members of the public—
- (i) a performance of live music,
 - (ii) any playing of recorded music,
 - (iii) a performance of dance,
 - (iv) a performance of a play,
 - (v) entertainment of a similar description to that falling within paragraphs (i) to (iv);
- (h) "selling an article" ("*gwerthu eitem*") includes (without prejudice to the generality of that term) trading by a person acting as a pedlar (whether or not under the authority of a pedlar's certificate granted under section 4 of the Pedlars Act 1871(2)); and
- (i) "trading activity" ("*gweithgaredd masnachu*") means carrying out one or more of the following activities in an open public place—
- (i) selling an article,
 - (ii) supplying a service,

(1) 1988 p. 52. Gweler adran 185 o'r Ddeddf honno.

(2) 1871 p. 96. Diwygiwyd adran 4 gan adran 2 o Ddeddf Bedleriaid 1881 (p. 45), adran 31(5) a (6) o Ddeddf Cyfraith Trosedd 1977 (p. 45), ac adran 46 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48).

(1) 1988 c. 52. See section 185 of that Act.

(2) 1871 c. 96. Section 4 was amended by section 2 of the Pedlars Act 1881 (c. 45), section 31(5) and (6) of the Criminal Law Act 1977 (c. 45), and section 46 of the Criminal Justice Act 1982 (c. 48).

- (iii) gwneud apêl i aelodau o'r cyhoedd roi arian (drwy ba fodd bynnag) neu eiddo arall (neu'r ddau) at ddibenion elusennol neu ddibenion eraill (p'un a yw wedi ei awdurdodi gan neu o dan unrhyw ddeddfiad),
- (iv) darparu adloniant cyhoeddus er elw neu gydnabyddiaeth.

(2) Wrth ddyfarnu a yw gweithgaredd yn gyfystyr â gweithgaredd masnachu at ddibenion y Rhan hon, mae'r materion canlynol i'w diystyru—

- (a) y ffaith nad yw elw neu gydnabyddiaeth sy'n deillio o'r gweithgaredd yn dod yn eiddo i'r person sy'n cyflawni'r gweithgaredd mewn gwirionedd,
- (b) y ffaith nad yw'r naill barti na'r llall i drafodiad mewn man cyhoeddus agored lle y mae un neu fwy o'r gweithgareddau canlynol yn digwydd—
 - (i) cynnig eitem i'w gwerthu neu ei rhoi ar ddangos i'w gwerthu,
 - (ii) cynnig i gyflenwi gwasanaeth,
 - (iii) cwblhau'r trafodiad,
- (c) y ffaith nad yw trafodiad wedi ei gwblhau mewn man cyhoeddus agored, os yw un o'r gweithgareddau canlynol neu'r ddau ohonynt yn digwydd yn y man hwnnw—
 - (i) cynnig eitem i'w gwerthu neu ei rhoi ar ddangos i'w gwerthu,
 - (ii) cynnig i gyflenwi gwasanaeth,
- (ch) y ffaith bod eitem a werthwyd mewn gwirionedd neu wasanaeth a gyflenwyd mewn gwirionedd yn wahanol i'r hyn a gynigiwyd i'w gwerthu neu a roddwyd ar ddangos i'w gwerthu.

Rheoli masnachu

13.—(1) Rhaid i berson beidio ag ymhel â gweithgaredd masnachu yn y parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad.

(2) Mae person i'w drin fel un sy'n mynd yn groes i baragraff (1) os yw'n trefnu (ar unrhyw bryd ac mewn unrhyw le) i weithgaredd masnachu gael ei gynnal yn y parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad.

(3) Mae person i'w drin hefyd fel un sy'n mynd yn groes i baragraff (1) os yw gweithgaredd masnachu yn y parth digwyddiadau yn ystod cyfnod digwyddiad—

- (a) yn un y mae busnes neu gonsýrn arall yn ymgymryd ag ef a hwnnw'n fusnes neu gonsýrn y mae ganddo fuddiant ynddo neu y mae'n gyfrifol amdano, neu
- (b) yn cael ei gynnal ar dir y mae'n berchen arno neu'n ei feddiannu neu y mae ganddo gyfrifoldeb dros ei reoli.

- (iii) making an appeal to members of the public to give money (by whatever means) or other property (or both) for charitable or other purposes (whether or not authorised by or under any enactment),
- (iv) providing public entertainment for gain or reward.

(2) In determining whether activity amounts to trading activity for the purposes of this Part the following matters are to be disregarded—

- (a) the fact that gain or reward arising from the activity does not accrue to the person actually carrying out the activity,
- (b) the fact that either party to a transaction is not in an open public place when one or more of the following activities occurs—
 - (i) an offer or exposure for sale of an article,
 - (ii) an offer to supply a service,
 - (iii) the completion of the transaction,
- (c) the fact that a transaction is not completed in an open public place, if one or both of the following activities occurs in such a place—
 - (i) an offer or exposure for sale of an article,
 - (ii) an offer to supply a service,
- (d) the fact that an article actually sold or service actually supplied is different from that offered or exposed for sale.

Control of trading

13.—(1) A person must not engage in trading activity in the event zone during an event period.

(2) A person is to be treated as contravening paragraph (1) if that person arranges (at any time and in any place) for trading activity to take place in the event zone during an event period.

(3) A person is also to be treated as contravening paragraph (1) if trading activity in the event zone during an event period—

- (a) is undertaken by a business or other concern in which that person has an interest or for which that person is responsible, or
- (b) takes place on land that that person owns or occupies or of which that person has responsibility for the management.

(4) Ond nid yw paragraff (3) yn gymwys i berson sy'n profi—

- (a) bod y gweithgaredd masnachu wedi ei gynnal heb iddo wybod hynny, neu
- (b) bod y person hwnnw wedi cymryd pob cam rhesymol i atal y gweithgaredd masnachu rhag cael ei gynnal neu, pan fo wedi ei gynnal, i'w atal rhag parhau neu ailddigwydd.

(5) Heb leihau effaith paragraff (3) yn gyffredinol—

- (a) mae person i'w drin fel un sydd â buddiant mewn busnes neu gonsŷrn arall, neu gyfrifoldeb dros y naill neu'r llall, os yw'n swyddog i'r busnes neu'r consŷrn hwnnw,
- (b) mae person i'w drin fel un sydd â chyfrifoldeb dros reoli tir os yw'n swyddog i fusnes neu gonsŷrn arall sy'n berchen ar y tir, sy'n ei feddiannu neu sydd â chyfrifoldeb dros reoli'r tir hwnnw.

(6) Ym mharagraff (5), ystyr "swyddog" ("*an officer*") yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall tebyg.

(7) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran gweithgaredd masnachu p'un a yw'n cynnwys canlyniad neu barhad gweithgaredd a gyflawnwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ai peidio.

Eithriadau

14.—(1) Nid yw rheoliad 13 yn gymwys i'r gweithgaredd masnachu a ganlyn—

- (a) gwerthu papur newydd neu gyfnodolyn cyfredol, naill ai heb ddaliedydd neu o ddaliedydd nad yw'n achosi ymyrraeth ormodol neu anghyfleustra gormodol i bersonau sy'n defnyddio'r stryd,
- (b) gweithgaredd masnachu yr ymgwymerir ag ef neu a reolir gan Bwyllgor Trefnu Llundain ar dir caeëdig y mae Digwyddiad Olympaidd Llundain yn cael ei gynnal neu i'w gynnal arno,
- (c) gwerthu neu draddodi eitem i berson mewn mangre sy'n cyffinio â phriffordd,
- (ch) gwerthu cerbyd modur ar dir preifat sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i werthu cerbydau modur,
- (d) cyflenwi gwasanaethau glanhau cerbydau modur ar dir preifat sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i gyflenwi'r gwasanaethau hynny,
- (dd) cyflenwi gwasanaethau parcio cerbydau modur mewn adeilad neu ar dir arall sydd wedi ei ddylunio neu sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i barcio cerbydau modur,
- (e) darparu cyfleuster iechydol cyhoeddus,
- (f) darparu caban ffôn parhaol,

(4) But paragraph (3) does not apply to a person who proves that—

- (a) the trading activity took place without that person's knowledge, or
- (b) that person took all reasonable steps to prevent the trading activity taking place or, where it has taken place, to prevent it continuing or recurring.

(5) Without prejudice to the generality of paragraph (3)—

- (a) a person is to be treated as having an interest in or responsibility for a business or other concern if that person is an officer of the business or concern,
- (b) a person is to be treated as having responsibility for the management of land if that person is an officer of a business or other concern that owns, occupies or has responsibility for the management of the land.

(6) In paragraph (5), "an officer" ("*swyddog*") means a director, manager, secretary or other similar officer.

(7) This regulation applies in relation to trading activity whether or not it consists of the result or continuation of activity carried out before these Regulations came into force.

Exceptions

14.—(1) Regulation 13 does not apply to the following trading activity—

- (a) selling a current newspaper or periodical either without a receptacle or from a receptacle that does not cause undue interference or inconvenience to persons using the street,
- (b) trading activity undertaken or controlled by the London Organising Committee on enclosed land on which a London Olympic Event is taking place or to take place,
- (c) selling or delivering an article to a person in premises adjoining a highway,
- (d) selling a motor vehicle on private land generally used for the sale of motor vehicles,
- (e) supplying motor vehicle cleaning services on private land generally used for the supply of those services,
- (f) supplying motor vehicle parking services in a building or on other land designed or generally used for the parking of motor vehicles,
- (g) providing a public sanitary convenience,
- (h) providing a permanent telephone kiosk,

- (ff) masnachu fel gweithredwr teithiau cerdded,
- (g) cyflenwi gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau i dwristiaid, neu
- (ng) gweithgaredd masnachu ar dir preifat sy'n gyfagos â mangre fanwerthu esempt ar yr amod bod y gweithgaredd masnachu—
 - (i) yn ffurfio rhan o fusnes arferol perchennog y fangre neu berson sydd wedi ei asesu ar gyfer ardreth fusnes unffurf mewn cysylltiad â'r fangre, a
 - (ii) yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod y mae'r fangre ar agor i'r cyhoedd ar gyfer busnes.

(2) Yn y rheoliad hwn—

mae i "cyfleuster iechydol" yr un ystyr â "*sanitary convenience*" yn Neddf Adeiladu 1984(1);

ystyr "gwasanaethau i dwristiaid" ("*tourist services*") yw gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus er budd twristiaid yn bennaf;

ystyr "gweithredwr teithiau cerdded" ("*walking tour operator*") yw person sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n cynnwys teithiau mewn ardal ar ddeudroed; ac

ystyr "mangre fanwerthu esempt" ("*exempt retail premises*") yw adeilad a ddefnyddir fel rheol fel—

- (a) siop,
- (b) bwyty, bar, neu fangre arall a ddefnyddir i gyflenwi prydau bwyd, lluniaeth neu alcohol i'r cyhoedd, neu
- (c) gorsaf betrol.

Gweithgaredd masnachu a awdurdodir gan Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd etc.

15.—(1) Nid yw rheoliad 13 yn gymwys i weithgaredd masnachu yr ymgymerir ag ef yn unol ag awdurdodiad a roddir gan yr Awdurdod(2).

(2) Yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn llwyr mewn cysylltiad â phob cais am awdurdodiad.

(3) Rhaid i'r Awdurdod roi sylw i ddarpariaethau Contract y Ddinas Groesawu cyn rhoi awdurdodiad o dan y rheoliad hwn.

(4) Mae awdurdodiad a roddir o dan y rheoliad hwn yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i unrhyw berson sy'n ymhel â gweithgaredd masnachu gan ddiwyddu ar yr awdurdodiad ddal unrhyw drwydded y mae'n ofynnol ei chael, yn ychwanegol at awdurdodiad o dan

- (i) trading as a walking tour operator,
- (j) supplying public transport services including tourist services, or
- (k) trading activity on private land adjacent to exempt retail premises provided that the trading activity—
 - (i) forms part of the usual business of the owner of the premises or a person assessed for uniform business rate in respect of the premises, and
 - (ii) takes place during the period during which the premises are open to the public for business.

(2) In this regulation—

"exempt retail premises" ("*mangre fanwerthu esempt*") means a building normally used as—

- (a) a shop,
- (b) a restaurant, bar, or other premises used for the supply of meals, refreshments or alcohol to the public, or
- (c) a petrol filling station;

"sanitary convenience" ("*cyfleuster iechydol*") has the same meaning as in the Building Act 1984(1);

"tourist services" ("*gwasanaethau i dwristiaid*") means public transport services primarily for the benefit of tourists; and

"walking tour operator" ("*gweithredwr teithiau cerdded*") means a person that supplies services to the public comprising tours of an area on foot.

Trading activity authorised by the Olympic Delivery Authority etc.

15.—(1) Regulation 13 does not apply to trading activity undertaken in accordance with an authorisation granted by the Authority(2).

(2) Subject to these Regulations, the Authority has an absolute discretion in respect of each application for authorisation.

(3) The Authority must have regard to the provisions of the Host City Contract before granting an authorisation under this regulation.

(4) An authorisation granted under this regulation is subject to the condition that any person who engages in trading activity in reliance on the authorisation must hold any licence which, in addition to authorisation under this regulation, is required before the person may

(1) 1984 p. 55. Gweler adran 126 o'r Ddeddf honno.

(2) O dan adran 25(7) o'r Ddeddf, caniateir i awdurdodiad a roddir gan yr Awdurdod fod yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.

(1) 1984 c. 55. See section 126 of that Act.

(2) Under section 25(7) of the Act, an authorisation granted by the Authority may be subject to terms and conditions.

y rheoliad hwn, cyn y caiff y person ymhel â gweithgaredd masnachu (p'un ai mewn man penodol neu'n gyffredinol).

(5) Yn y rheoliad hwn ystyr "Awdurdod" ("*Authority*") yw—

- (a) Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd, neu
- (b) person y mae swyddogaeth rhoi awdurdodiadau at ddibenion y rheoliad hwn wedi ei dirprwyo iddo gan Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd.

engage in trading activity (whether in a particular place or generally).

(5) In this regulation "Authority" ("*Awdurdod*") means—

- (a) the Olympic Delivery Authority, or
- (b) a person to whom the function of granting authorisations for the purpose of this regulation is delegated by the Olympic Delivery Authority.

RHAN 4

Hawliau adolygu

Dehongli'r Rhan hon

16. Yn y Rhan hon—

ystyr "awdurdodiad" ("*authorisation*") yw awdurdodiad a roddir—

- (a) o dan reoliad 11(1)(b) mewn perthynas â gweithgaredd hysbysebu, neu
- (b) o dan reoliad 15 mewn perthynas â gweithgaredd masnachu;

ystyr "awdurdodwr" ("*authoriser*")—

- (a) mewn perthynas â chais am awdurdodiad o dan reoliad 11(1)(b), yw Pwyllgor Trefnu Llundain, neu
- (b) mewn perthynas â chais am awdurdodiad o dan reoliad 15, yw'r Awdurdod (o fewn ystyr y rheoliad hwnnw); ac

mae i "ceisydd" ("*applicant*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 17(1).

Yr hawl i geisio adolygiad

17.—(1) Caiff person sydd wedi gwneud cais am awdurdodiad ("*ceisydd*") ac sy'n anfodlon ar benderfyniad yr awdurdodwr ofyn i Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd adolygu'r penderfyniad hwnnw.

(2) Rhaid bod cais o'r fath—

- (a) mewn ysgrifen,
- (b) yn cynnwys yr wybodaeth neu'r dystiolaeth honno y mae'r ceisydd yn barnu ei bod yn berthnasol neu rhaid bod gwybodaeth neu dystiolaeth o'r fath yn dod gyda'r cais, ac
- (c) yn cael ei wneud o fewn cyfnod o 21 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad y mynegwyd penderfyniad yr awdurdodwr i'r ceisydd.

PART 4

Rights of review

Interpretation of this Part

16. In this Part—

"applicant" ("*ceisydd*") has the meaning given in regulation 17(1);

"authorisation" ("*awdurdodiad*") means an authorisation granted—

- (a) under regulation 11(1)(b) in relation to advertising activity, or
- (b) under regulation 15 in relation to trading activity; and

"authoriser" ("*awdurdodwr*") means—

- (a) in relation to an application for an authorisation under regulation 11(1)(b), the London Organising Committee, or
- (b) in relation to an application for an authorisation under regulation 15, the Authority (within the meaning of that regulation).

Right to seek review

17.—(1) A person who has applied for an authorisation (an "applicant") and is dissatisfied with the decision of the authoriser may request the Olympic Delivery Authority to review that decision.

(2) Such a request must—

- (a) be in writing,
- (b) include or be accompanied by such information or evidence as the applicant considers relevant, and
- (c) be made within a period of 21 days beginning with the date on which the authoriser's decision was communicated to the applicant.

(3) Rhaid i Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd adolygu penderfyniad yr awdurdodwr o fewn cyfnod o 21 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad a gaiff gais o'r fath.

(4) Wrth adolygu penderfyniad yr awdurdodwr, caiff Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd—

- (a) cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, neu
- (b) rhoi penderfyniad newydd yn lle'r penderfyniad gwreiddiol.

(5) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud penderfyniad ar yr adolygiad, rhaid i Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd anfon hysbysiad ysgrifenedig at y ceisydd yn rhoi gwybod iddo am benderfyniad yr Awdurdod a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(6) Mae penderfyniad Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd ar yr adolygiad yn derfynol.

(3) The Olympic Delivery Authority must review the authoriser's decision within a period of 21 days beginning with the date on which it receives such a request.

(4) On reviewing the authoriser's decision, the Olympic Delivery Authority may—

- (a) confirm the original decision, or
- (b) substitute a new decision for the original decision.

(5) As soon as practicable after making a decision on the review, the Olympic Delivery Authority must send a written notice to the applicant informing the applicant of its decision and the reasons for that decision.

(6) The decision of the Olympic Delivery Authority on the review is final.

RHAN 5

Iawndal

Dehongli'r Rhan hon

18. Yn y Rhan hon—

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*"), mewn perthynas ag arfer neu arfer honedig o bŵer o dan adran 22 neu 28 o'r Ddeddf—

- (a) os oedd yr arfer neu'r arfer honedig o'r pŵer gan swyddog gorfodi, yw Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd, neu
- (b) os oedd yr arfer neu'r arfer honedig o'r pŵer gan gwnstabl, yw awdurdod heddlu yr heddlu y mae'r cwnstabl yn aelod ohono;

mae i "hawlydd" ("*claimant*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 20(1);

mae i "hysbysiad am hawliad" ("*notice of claim*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 20(1);

ystyr "hysbysiad penderfynu" ("*decision notice*") yw hysbysiad a ddyroddwyd gan awdurdod perthnasol o dan reoliad 22(2)(b) neu (3); ac

ystyr "swyddog gorfodi" ("*enforcement officer*") yw person a ddynodwyd at ddibenion adran 22 neu 28 o'r Ddeddf (pŵerau gorfodi) gan Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd.

Hawl i gael iawndal am ddifrod i eiddo

19.—(1) Mae gan berson y mae ei eiddo wedi ei ddifrodi yn ystod arfer neu arfer honedig o bŵer o dan

PART 5

Compensation

Interpretation of this Part

18. In this Part—

"claimant" ("*hawlydd*") has the meaning given in regulation 20(1);

"decision notice" ("*hysbysiad penderfynu*") means a notice issued by a relevant authority under regulation 22(2)(b) or (3);

"enforcement officer" ("*swyddog gorfodi*") means a person designated for the purpose of section 22 or 28 of the Act (enforcement powers) by the Olympic Delivery Authority;

"notice of claim" ("*hysbysiad am hawliad*") has the meaning given in regulation 20(1); and

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*"), in relation to the exercise or purported exercise of a power under section 22 or 28 of the Act, means—

- (a) if the exercise or purported exercise of the power was by an enforcement officer, the Olympic Delivery Authority, or
- (b) if the exercise or purported exercise of the power was by a constable, the police authority for the police force of which the constable is a member.

Entitlement to compensation for damage to property

19.—(1) A person whose property is damaged in the course of the exercise or purported exercise of a power

adran 22 neu 28 o'r Ddeddf hawl i gael iawndal gan yr awdurdod perthnasol yn unol â'r Rhan hon.

(2) Ond nid oes gan berson sydd, yn ôl cred resymol yr awdurdod perthnasol, yn gyfrifol am dorri'r Rheoliadau hyn, hawl i gael iawndal.

(3) Swm yr iawndal sy'n daladwy yw cyfanswm—

(a) cost trwsio'r eiddo er mwyn ei adfer i'w gyflwr blaenorol (neu, yn achos eiddo sy'n amhosibl, neu nad yw'n werth chweil yn fasnachol, ei drwsio, cost rhoi eiddo newydd yn ei le), a

(b) unrhyw golled arall a oedd yn ganlyniad uniongyrchol i'r difrod i'r eiddo.

Hysbysiad am hawliad

20.—(1) Caiff person sydd â hawl i gael iawndal o dan y Rhan hon ("hawlydd") anfon hysbysiad ysgrifenedig ("hysbysiad am hawliad") i'r awdurdod perthnasol yn hawlio'r iawndal hwnnw.

(2) Rhaid i hysbysiad am hawliad gael ei anfon o fewn—

(a) cyfnod o 30 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad y digwyddodd y difrod, neu

(b) unrhyw gyfnod hwy y cytunir arno gan yr awdurdod perthnasol mewn ysgrifen.

(3) Rhaid i hysbysiad am hawliad gynnwys yr holl wybodaeth a thystiolaeth ganlynol neu rhaid iddynt ddod gyda'r hysbysiad hwnnw—

(a) enw llawn yr hawlydd,

(b) y dyddiad y digwyddodd y difrod,

(c) y cyfeiriad neu'r man lle y digwyddodd y difrod,

(ch) disgrifiad—

(i) o'r eiddo a ddifrodwyd,

(ii) o natur y difrod, a

(iii) o natur unrhyw golled pellach a ddeilliodd yn uniongyrchol o'r difrod y mae iawndal yn cael ei hawlio amdano,

(d) swm yr iawndal sy'n cael ei hawlio (yn unol â rheoliad 19(3)) a'r sail a ddefnyddir i gyfrifo swm yr iawndal, a

(dd) ffotograffau, derbynebau, dyfynbrisiau neu dystiolaeth arall am y materion y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraffau (b) i (d).

Pwysu a mesur a yw'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gafwyd yn ddigonol

21.—(1) O fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad y mae'r awdurdod perthnasol yn

under section 22 or 28 of the Act is entitled to compensation from the relevant authority in accordance with this Part.

(2) But a person who, in the reasonable belief of the relevant authority, is responsible for a contravention of these Regulations is not entitled to compensation.

(3) The amount of compensation payable is the total of—

(a) the cost of repairing the property to its previous condition (or, in the case of property which is impossible, or not commercially worthwhile, to repair, the cost of replacing the property), and

(b) any other loss which was a direct result of the damage to the property.

Notice of claim

20.—(1) A person entitled to compensation under this Part (a "claimant") may send a written notice (a "notice of claim") to the relevant authority claiming that compensation.

(2) A notice of claim must be sent within—

(a) a period of 30 days beginning with the date on which damage occurred, or

(b) such longer period as agreed by the relevant authority in writing.

(3) A notice of claim must include or be accompanied by all of the following information and evidence—

(a) the claimant's full name,

(b) the date on which the damage occurred,

(c) the address or location at which the damage occurred,

(d) a description of—

(i) the property damaged,

(ii) the nature of the damage, and

(iii) the nature of any further loss which flowed directly from the damage for which compensation is claimed,

(e) the amount of compensation claimed (in accordance with regulation 19(3)) and the basis upon which the amount of compensation is calculated, and

(f) photographs, receipts, quotations or other evidence as to the matters referred to in subparagraphs (b) to (e).

Consideration of sufficiency of information and evidence received

21.—(1) Within a period of 14 days beginning with the date on which the relevant authority receives a

cael hysbysiad am hawliad, rhaid iddo ddyfarnu a yw wedi cael digon o wybodaeth a thystiolaeth i'w alluogi i benderfynu'r materion a ganlyn—

- (a) a oes gan yr hawlydd hawl i gael iawndal o dan y Rhan hon,
- (b) ac os oes, swm yr iawndal.

(2) Os yw'r awdurdod yn dyfarnu nad yw wedi cael digon o wybodaeth neu dystiolaeth, rhaid iddo anfon at yr hawlydd hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r wybodaeth neu'r dystiolaeth bellach y mae ei hangen ar yr awdurdod.

(3) Rhaid i'r hawlydd anfon i'r awdurdod yr wybodaeth neu'r dystiolaeth a nodir yn yr hysbysiad hwnnw o fewn—

- (a) cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad y bydd yr hawlydd yn cael yr hysbysiad, neu
- (b) unrhyw gyfnod hwy y cytunir arno gan yr awdurdod perthnasol mewn ysgrifen.

(4) O fewn cyfnod o 7 niwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y bydd yr awdurdod yn cael unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach ar ôl hysbysiad o'r fath, rhaid iddo wneud y dyfarniad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1) unwaith eto (a bydd paragraffau eraill y rheoliad hwn yn gymwys i'r dyfarniad newydd hwnnw).

Penderfyniad awdurdod ar hawliad

22.—(1) Os yw awdurdod perthnasol yn dyfarnu o dan reoliad 21 ei fod wedi cael digon o wybodaeth a thystiolaeth, rhaid iddo, o fewn cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddyddiad y dyfarniad hwnnw, benderfynu'r materion y cyfeiriwyd atynt yn rheoliad 21(1)(a) a (b).

(2) Os yw'r awdurdod yn penderfynu bod gan yr hawlydd hawl i gael iawndal, rhaid iddo—

- (a) talu i'r hawlydd y swm iawndal a nodir yn yr hysbysiad am hawliad, neu
- (b) os yw'n penderfynu bod gan yr hawlydd hawl i gael swm iawndal llai, anfon hysbysiad mewn ysgrifen at yr hawlydd—
 - (i) yn cynnig y swm llai hwnnw i'r hawlydd, a
 - (ii) yn datgan y rhesymau dros ei benderfyniad.

(3) Os yw'r awdurdod yn penderfynu nad oes hawl gan yr hawlydd i gael iawndal, rhaid iddo anfon hysbysiad mewn ysgrifen at yr hawlydd—

- (i) yn gwrthod yr hawliad, a
- (ii) yn nodi'r rhesymau dros ei benderfyniad.

(4) Caiff hawlydd sy'n cael hysbysiad penderfynu sy'n cynnig swm iawndal sy'n llai na'r hyn a nodwyd yn yr hysbysiad am hawliad gytuno, mewn ysgrifen, i

notice of claim it must determine whether it has received sufficient information and evidence to enable it to decide the following matters—

- (a) whether the claimant is entitled to compensation under this Part,
- (b) and if so, the amount of the compensation.

(2) If the authority determines that it has not received sufficient information or evidence, it must send the claimant a written notice stating the further information or evidence that it requires.

(3) The claimant must send the authority the information or evidence stated in such a notice within—

- (a) a period of 14 days beginning with the date on which the claimant receives the notice, or
- (b) such longer period as agreed by the relevant authority in writing.

(4) Within a period of 7 days beginning with the date on which the authority receives any further information or evidence following such a notice, it must make the determination referred to in paragraph (1) again (and the other paragraphs of this regulation apply to that new determination).

Authority's decision on a claim

22.—(1) If a relevant authority determines under regulation 21 that it has received sufficient information and evidence it must, within a period of 14 days beginning with the date of that determination, decide the matters referred to in regulation 21(1)(a) and (b).

(2) If the authority decides that the claimant is entitled to compensation it must—

- (a) pay to the claimant the amount of compensation stated in the notice of claim, or
- (b) if it decides that the claimant is entitled to a lesser amount of compensation, send a notice in writing to the claimant—
 - (i) offering that lesser amount to the claimant, and
 - (ii) stating the reasons for its decision.

(3) If the authority decides that the claimant is not entitled to compensation it must send a notice in writing to the claimant—

- (i) declining the claim, and
- (ii) stating the reasons for its decision.

(4) A claimant who receives a decision notice offering a lesser amount of compensation than that stated in the notice of claim may agree, in writing, to

dderbyn y swm llai hwnnw (ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r awdurdod dalu'r swm hwnnw i'r hawlydd).

(5) Rhaid i hysbysiad penderfynu gynnwys manylion hawliau'r hawlydd—

- (a) i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad, o dan reoliad 23, a
- (b) i apelio yn erbyn penderfyniad ar adolygiad, o dan reoliad 24.

Adolygu penderfyniad ar hawliad

23.—(1) Caiff hawlydd sy'n cael hysbysiad penderfynu ofyn i'r awdurdod perthnasol adolygu ei benderfyniad.

(2) Rhaid bod cais o'r fath—

- (a) mewn ysgrifen,
- (b) yn cael ei wneud o fewn—
 - (i) cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad y cafwyd yr hysbysiad penderfynu, neu
 - (ii) unrhyw gyfnod hwy y cytunir arno mewn ysgrifen gan yr awdurdod perthnasol, ac
- (c) yn cynnwys yr wybodaeth neu'r dystiolaeth honno y mae'r hawlydd yn barnu ei bod yn berthnasol neu rhaid bod gwybodaeth neu dystiolaeth o'r fath yn dod gyda'r cais.

(3) O fewn cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad y bydd awdurdod perthnasol yn cael cais o'r fath, rhaid iddo adolygu ei benderfyniad o dan reoliad 22.

(4) Wrth adolygu ei benderfyniad, caiff yr awdurdod—

- (a) cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, neu
- (b) rhoi penderfyniad newydd yn lle'r penderfyniad gwreiddiol.

(5) Ond wrth adolygu ei benderfyniad, ni chaiff yr awdurdod roi swm iawndal llai yn lle'r hyn a nodwyd yn yr hysbysiad penderfynu.

(6) Rhaid i'r awdurdod anfon hysbysiad ysgrifenedig at yr hawlydd yn rhoi gwybod iddo am ei benderfyniad ar yr adolygiad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(7) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (6) gynnwys manylion hawl yr hawlydd i apelio yn erbyn penderfyniad ar adolygiad o dan reoliad 24.

Apelio i'r llys sirol

24.—(1) Caiff hawlydd sy'n anfodlon ar benderfyniad yr awdurdod perthnasol ar adolygiad o dan reoliad 23 apelio i'r llys sirol.

(2) Rhaid dwyn apêl o fewn cyfnod o 21 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad y cafodd yr

accept that lesser amount (in which case the authority must pay that amount to the claimant).

(5) A decision notice must contain particulars of the claimant's rights to—

- (a) request a review of the decision, under regulation 23, and
- (b) appeal a decision on a review, under regulation 24.

Review of decision on a claim

23.—(1) A claimant who receives a decision notice may request the relevant authority to review its decision.

(2) Such a request must—

- (a) be in writing,
- (b) be made within—
 - (i) a period of 14 days beginning with the date on which the decision notice was received, or
 - (ii) such longer period agreed by the relevant authority in writing, and
- (c) include or be accompanied by such information or evidence as the claimant considers relevant.

(3) Within a period of 14 days beginning with the date on which a relevant authority receives such a request it must review its decision under regulation 22.

(4) On reviewing its decision, the authority may—

- (a) confirm the original decision, or
- (b) substitute a new decision for the original decision.

(5) But on reviewing its decision the authority may not substitute a lesser amount of compensation for that stated in the decision notice.

(6) The authority must send a written notice to the claimant informing the claimant of its decision on the review and the reasons for that decision.

(7) A notice under paragraph (6) must contain particulars of the claimant's right to appeal a decision on a review under regulation 24.

Appeal to the county court

24.—(1) A claimant who is dissatisfied with a decision of the relevant authority on a review under regulation 23 may appeal to the county court.

(2) An appeal must be brought within a period of 21 days beginning with the date on which the claimant

hawlydd hysbysiad ysgrifenedig am benderfyniad yr awdurdod ar adolygiad.

(3) Caiff y llys roi caniatâd i apêl gael ei dwyn ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw, ond dim ond os yw wedi ei fodloni—

- (a) pan fo caniatâd yn cael ei geisio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bod rheswm da pam nad yw'r hawlydd yn gallu dwyn yr apêl mewn pryd, neu
- (b) pan fo caniatâd yn cael ei geisio ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw, bod rheswm da dros fethiant yr hawlydd i ddwyn yr apêl mewn pryd ac am unrhyw oedi cyn gwneud cais am ganiatâd.

(4) Rhaid i apêl o dan y rheoliad hwn fod ar ffurf ailwrandawriad a chaiff y llys wneud y cyfryw orchymyn yn cadarnhau, yn diddymu neu'n amrywio'r penderfyniad ag y gwêl yn dda.

received written notice of the authority's decision on review.

(3) The court may give permission for an appeal to be brought after the end of that period, but only if it is satisfied—

- (a) where permission is sought before the end of that period, that there is a good reason for the claimant to be unable to bring the appeal in time, or
- (b) where permission is sought after the end of that period, that there was a good reason for the claimant's failure to bring the appeal in time and for any delay in applying for permission.

(4) An appeal under this regulation is to be by way of rehearing and the court may make such order confirming, quashing or varying the decision as it thinks fit.

John Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

10 Ionawr 2012

© Crown copyright 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Environment and Sustainable Development, one of the Welsh Ministers

10 January 2012

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.